**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**
**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n Gysylltiedig â Cherbydau**
**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin (Doc y Gogledd, Llanelli) [2027]**

**1. Gwneud y Gorchymyn**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") yn gwneud y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus hwn ("y Gorchymyn") o dan adrannau 59, 60, 62, 63, 66, 67, 68 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall.

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin (Doc y Gogledd, Llanelli) [2027]**.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **[rhowch ddyddiad]** a bydd yn parhau mewn grym am **dair blynedd**, oni bai ei fod yn cael ei ymestyn, ei amrywio neu ei ddiddymu gan y Cyngor yn unol â'r Ddeddf.

**2. Ardal a gwmpesir gan y Gorchymyn**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r mannau cyhoeddus yn Noc y Gogledd, Llanelli a ddangosir **[rhowch ddolen y map yma].**

At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyr "man cyhoeddus" yw unrhyw fan y mae gan y cyhoedd, neu unrhyw ran o'r cyhoedd, fynediad iddo. Mae hyn yn cynnwys mynediad drwy hawl, drwy daliad, neu drwy ganiatâd penodol neu ymhlyg.

Mae'r Ardal Gyfyngedig yn cynnwys priffyrdd, ffyrdd, ffyrdd mynediad, meysydd parcio, ardaloedd parcio, llwybrau troed, mannau agored cyhoeddus ac ardaloedd cyhoeddus eraill o fewn y ffin a ddangosir ar y map, oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol.

**3. Pam mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud**

Mae'r Cyngor wedi'i fodloni ar sail resymol bod ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â cherbydau wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, o fewn yr Ardal Gyfyngedig.

Mae'r Cyngor hefyd wedi'i fodloni bod yr ymddygiad hwn wedi cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal.

Mae'r Cyngor o'r farn bod effaith yr ymddygiad hwn, neu ei heffaith debygol:

- yn barhaus neu'n gyson ei natur;
- yn afresymol; ac
- yn golygu ei bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn.

Diben y Gorchymyn hwn yw helpu i atal a lleihau gyrru sy'n achosi niwsans, cynulliadau cerbydau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig yn Noc y Gogledd, Llanelli. Bwriedir iddo gefnogi defnydd diogel a rhesymol o'r ardal gan drigolion, ymwelwyr, busnesau a'r gymuned ehangach.

Nid bwriad y Gorchymyn hwn yw atal gyrru cyfrifol, parcio cyfreithlon, mynediad arferol i'r ardal, na defnydd dilys o Ddoc y Gogledd, Llanelli.

**4. Ymgynghoriad a'r hawliau a ystyriwyd**

Cyn gwneud y Gorchymyn hwn, mae'r Cyngor wedi ymgynghori â Heddlu Dyfed-Powys, Cynghorwyr Lleol, Cyngor Tref Llanelli, trigolion lleol, busnesau lleol a phersonau neu gyrff eraill yr ystyriwyd eu bod yn briodol.

Wrth wneud y Gorchymyn hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r hawliau a'r rhyddid a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys rhyddid mynegiant a rhyddid ymgynnull. Mae'r Cyngor o'r farn bod y cyfyngiadau yn y Gorchymyn hwn yn angenrheidiol ac yn gymesur i atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**5. Gweithgareddau gwaharddedig**

Ni chaiff person, heb esgus rhesymol, wneud unrhyw un o'r canlynol o fewn yr Ardal Gyfyngedig.

**5.1 Cynulliadau cerbydau sy'n achosi niwsans neu niwed**

Ni chaiff person fynychu, trefnu, annog na chymryd rhan mewn cyfarfod neu gynulliad sy'n cynnwys un neu ragor o gerbydau a yrrir yn fecanyddol lle mae'r gweithgaredd yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwsans, annifyrrwch, aflonyddu, braw, gofid, perygl, rhwystr, neu effaith andwyol ar bobl yn yr ardal.

Mae hyn yn gymwys p'un a yw'r person yn yrrwr, yn feiciwr, yn deithiwr, yn berchennog, yn drefnydd, yn gyfranogwr neu'n wyliwr.

**5.2 Defnyddio cerbyd fel canolbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Ni chaiff person fynychu, trefnu, annog na chymryd rhan mewn cyfarfod neu gynulliad lle mae defnyddio cerbyd a yrrir yn fecanyddol yn ganolbwynt sylw ac unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol yn digwydd:

a. seinio cyrn cerbydau yn ddiangen neu dro ar ôl tro;

b. chwarae cerddoriaeth yn uchel iawn o gerbyd, mewn cerbyd, ger cerbyd, neu drwy ddefnyddio pŵer cerbyd, ar lefel sain sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, niwsans neu annifyrrwch;

c. gor-bweru injan cerbyd yn ddiangen;

d. goryrru, rasio neu yrru'n gystadleuol;

e. gyrru mewn ffordd sy’n achosi, neu’n debygol o achosi, perygl i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr eraill y ffordd, trigolion, ymwelwyr neu aelodau o’r cyhoedd;

f. cyflawni styntiau, gan gynnwys troelli mewn cylchoedd, gyrru ar lithr, sgidio, troadau brêc llaw, troelli olwynion neu losgi teiars;

g. gyrru neu reidio mewn ffordd sy’n achosi, neu’n debygol o achosi, difrod neu berygl o ddifrod i eiddo cyhoeddus neu breifat;

h. defnyddio iaith neu ymddygiad bygythiol, sarhaus, ymosodol neu dramgwyddus sy’n gysylltiedig â gweithgarwch sy’n ymwneud â cherbydau;

i. taflu, gollwng neu adael sbwriel o gerbyd mewn unrhyw ffordd arall;

j. achosi rhwystr ar briffordd, maes parcio, ffordd fynediad, llwybr troed, man cyhoeddus, mynedfa neu allanfa, p’un a yw’r cerbyd yn symud neu’n llonydd;

k. defnyddio cerbyd mewn ffordd sy’n achosi gormod o sŵn, mwg, mygdarth neu aflonyddwch.

**5.3 Gyrru neu reidio gwrthgymdeithasol**

Ni chaiff person yrru, reidio, cael ei gludo fel teithiwr, na bod yn deithiwr fel arall ar gerbyd a yrrir yn fecanyddol neu ynddo, gan gynnwys beic modur neu foped, lle mae’r amgylchiadau’n rhoi sail resymol i gwnstabl heddlu neu berson awdurdodedig gredu bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio, neu’n debygol o gael ei ddefnyddio, mewn ffordd sy’n achosi, neu’n debygol o achosi:

- niwsans neu annifyrrwch;
- aflonyddu, braw neu ofid;
- perygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd neu gerddwyr;
- rhwystr;
- difrod neu berygl o ddifrod i eiddo; neu
- effaith andwyol ar yr ardal.

**5.4 Trefnu neu annog gweithgarwch gwaharddedig**

Ni chaiff person gynorthwyo, cymell, cynghori, peri, trefnu, hysbysebu, annog na chymryd rhan yn y gwaith o drefnu unrhyw weithgarwch a waherddir gan y Gorchymyn hwn.

Mae hyn yn gymwys p’un a yw’r gweithgarwch arfaethedig yn digwydd ai peidio.

**5.5 Rhwystro swyddogion**

Ni chaiff person rwystro, bygwth na sarhau cwnstabl heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, swyddog awdurdodedig y Cyngor, neu berson awdurdodedig arall sy'n gweithredu mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn.

**6. Gorfodi**

Caiff cwnstabl heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, swyddog awdurdodedig y Cyngor, neu berson arall a awdurdodwyd gan y Cyngor gymryd camau gorfodi pan fo ganddo sail resymol dros gredu bod person wedi torri'r Gorchymyn hwn.

Dylai camau gorfodi fod yn gymesur a dylent ystyried amgylchiadau pob achos. Diben y Gorchymyn yw atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid ymyrryd â defnydd cyfrifol o'r ardal.

Pan fo'n briodol, gellir rhoi cyngor neu rybudd i berson cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol. Fodd bynnag, gellir cymryd camau ffurfiol heb rybudd pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur.

**7. Troseddau a chosbau**

Mae'n drosedd i berson, heb esgus rhesymol, wneud unrhyw beth a waherddir gan y Gorchymyn hwn.

Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Gorchymyn hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Mae talu Hysbysiad Cosb Benodedig o fewn y cyfnod gofynnol yn atal erlyniad am y drosedd honno.

**8. Esgus rhesymol**

Nid yw person yn cyflawni trosedd os gall ddangos bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Gall enghreifftiau o esgus rhesymol gynnwys sefyllfaoedd brys, cyfarwyddiadau cyfreithlon gan y gwasanaethau brys, neu amgylchiadau eraill lle'r oedd yr ymddygiad yn angenrheidiol ac yn gymesur.

**9. Eithriadau**

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i:

a. gerbydau'r gwasanaethau brys sy'n cael eu defnyddio at ddibenion brys neu weithredol;

b. cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor neu ei gontractwyr, neu ar eu rhan, ar gyfer swyddogaethau cyfreithlon y Cyngor;

c. cerbydau sy’n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â gwaith, cynnal a chadw, digwyddiadau neu weithgareddau awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Cyngor;

d. cerbydau sy’n cael eu defnyddio pan fo’r gyrrwr neu’r teithiwr yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd cyfreithlon gan gwnstabl heddlu, swyddog awdurdodedig y Cyngor, awdurdod traffig, neu wasanaeth brys.

**10. Diffiniadau**

At ddibenion y Gorchymyn hwn:

Ystyr **“Person awdurdodedig”** yw person a awdurdodwyd gan y Cyngor at ddibenion gorfodi’r Gorchymyn hwn.

Ystyr **“Cerbyd a yrrir yn fecanyddol”** yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei bweru’n fecanyddol, gan gynnwys drwy injan neu fodur trydan, ac a fwriedir neu a addaswyd i’w ddefnyddio ar ffyrdd neu dir arall. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, geir, beiciau modur, mopedau, faniau a cherbydau modur eraill.

Ystyr **“Troelli mewn cylchoedd”** yw gyrru cerbyd o amgylch ardal fach mewn modd cylchol ailadroddus.

Ystyr **“Gyrru ar lithr”** yw defnyddio cyflymiad a llywio mewn ffordd sy’n achosi i gefn y cerbyd lithro.

Ystyr **“Tro brêc llaw”** yw defnyddio’r brêc llaw, neu weithred frecio debyg, i droi’r cerbyd yn sydyn.

Ystyr **“Troelli olwynion”** yw defnyddio cyflymiad mewn ffordd sy’n achosi i’r olwynion droelli’n ddiangen, gan greu sŵn, mwg neu farciau ar wyneb y ffordd yn aml.

Ystyr **“Llosgi teiars”** yw cadw cerbyd yn llonydd, neu ei symud am bellter byr yn unig, wrth droelli’r olwynion fel bod ffrithiant yn achosi mwg, sŵn neu farciau teiars.

Mae **“Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n gysylltiedig â cherbydau”** yn cynnwys defnyddio cerbyd a yrrir yn fecanyddol mewn ffordd sy’n achosi, neu’n debygol o achosi, niwsans, annifyrrwch, aflonyddu, braw, gofid, perygl, rhwystr, difrod, gormod o sŵn, neu effaith andwyol yn yr ardal.

Ystyr **“Ardal Gyfyngedig”** yw’r ardal a ddangosir ag ymyl goch ar y map sydd ynghlwm yn Atodlen 1.

**11. Cyhoeddi ac arwyddion**

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi’r Gorchymyn hwn yn unol â’r Ddeddf.

Bydd arwyddion yn cael eu gosod yn yr Ardal Gyfyngedig neu gerllaw i roi gwybod i’r cyhoedd bod y Gorchymyn hwn mewn grym ac i egluro’r prif gyfyngiadau.

Bydd copi o’r Gorchymyn hwn a’r map sy’n dangos yr Ardal Gyfyngedig ar gael ar wefan y Cyngor.

**12. Adolygu**

Caiff y Cyngor adolygu’r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnod y mae mewn grym. Caiff y Cyngor amrywio, ymestyn neu ddiddymu’r Gorchymyn os yw’n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny a bod y gofynion cyfreithiol wedi’u bodloni.

**13. Apeliadau**

Caiff unrhyw berson â buddiant sy’n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn wneud cais i’r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i’r dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

Ystyr person â buddiant yw rhywun sy’n byw yn yr Ardal Gyfyngedig, yn gweithio yno’n rheolaidd, neu’n ymweld â hi’n rheolaidd.

Dim ond ar y seiliau canlynol y gellir cyflwyno her:

a. nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, nac i gynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol; neu

b. bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofyniad yn y Ddeddf wrth wneud y Gorchymyn.

**14. Gweithredu**

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**ar hyn ym mhresenoldeb**

**y canlynol:**

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil